# CYNGOR CYMUNED PENNAL

# REOLAU SEFYDLOG 2023 (CYMRU)

**Ni ellir atgynhyrchu na defnyddio unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn at ddibenion masnachol heb gael caniatâd ysgrifenedig Un Llais Cymru ac eithrio'r cynghorau hynny sy'n aelodau o Un Llais Cymru y mae ganddynt ganiatâd i olygu a defnyddio'r model reolau sefydlog yn y cyhoeddiad hwn ar gyfer eu pwrpasau llywodraethu.**

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Rheolau trafod mewn cyfarfodydd | 4 |
| Ymddygiad afreolus mewn cyfarfodydd | 6 |
| Cyfarfodydd yn gyffredinol | 6 |
| Pwyllgorau ac is-bwyllgorau | 10 |
| Cyfarfodydd Cyngor cyffredin | 11 |
| Cyfarfodydd eithriadol o’r Cyngor a phwyllgorau ac is-bwyllgorau | 13 |
| Penderfyniadau blaenorol | 14 |
| Pleidleisio ar benodiadau | 14 |
| Cynigion ar gyfer cyfarfod sy’n galw am roi hysbysiad ysgrifenedig i’r Swyddog Priodol | 14 |
| Cynigion mewn cyfarfod nad oes angen hysbysiad ysgrifenedig ar eu cyfer | 15 |
| Rheoli gwybodaeth | 16 |
| Drafft gofnodion | 16 |
| Cod ymddygiad a goddefebau | 17 |
| Cwynion cod ymddygiad | 18 |
| Swyddog Priodol | 18 |
| Swyddog Ariannol Cyfrifol | 20 |
| Cyfrifon a datganiadau cyfrifo | 21 |
| Rheolyddion ariannol a chaffael | 22 |
| Trin materion staff | 23 |
| Cyfrifoldebau i ddarparu gwybodaeth | 24 |
| Cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth diogelu data | 24 |
| Cysylltiadau gyda’r wasg/cyfryngau | 25 |
| Cyflawni a selio gweithredoedd cyfreithiol | 25 |
| Cyfathrebu gyda chynghorwyr bwrdeistrefi sirol neu gynghorwyr sir | 25 |
| Cyfyngiadau ar weithgarwch cynghorwyr | 26 |
| Rheolau sefydlog yn gyffredinol | 26 |

# CYFLWYNIAD

Mae hon yn fersiwn newydd o'r rheolau sefydlog er mwyn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. (Mai 2023)

## Sut i ddefnyddio model reolau sefydlog

Rheolau sefydlog yw rheolau ysgrifenedig Cyngor lleol. Mae rheolau sefydlog yn hanfodol ar gyfer rheoli'r ffordd y cynhelir cyfarfodydd. Gall Cyngor ddefnyddio rheolau sefydlog hefyd i gadarnhau neu gyfeirio at wahanol drefniadau trefniadol a gweinyddol mewnol. Nid ydynt yr un peth â pholisïau Cyngor ond gallant gyfeirio atynt.

Mae cynghorau lleol yn gweithredu oddi fewn i fframwaith statudol eang. Mae'r model reolau sefydlog hyn yn ymgorffori ac yn cyfeirio at lawer o ofynion statudol y mae'n rhaid i gynghorau eu bodloni. Nid yw'n bosib i'r model reolau sefydlog gynnwys na chyfeirio at yr holl ofynion statudol neu gyfreithiol sy'n berthnasol i gynghorau lleol. Er enghraifft, nid yw'n ymarferol i fodel reolau sefydlog gofnodi'r holl ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r gofynion statudol y mae'n rhaid i gyngor gadw atynt yn berthnasol os cawsant eu hymgorffori yn rheolau sefydlog Cyngor ai peidio.

Nid yw'r model reolau sefydlog yn cynnwys model reoliadau ariannol. Mae rheoliadau ariannol yn rheolau sefydlog i reoleiddio a rheoli materion ariannol a gweithdrefnau cyfrifo Cyngor lleol. Mae'r rheoliadau ariannol, o'u cymharu â rheolau sefydlog Cyngor, yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gofynion sy'n berthnasol i Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor. Mae model reoliadau ariannol ar gael i gynghorau sy'n aelodau o Un Llais Cymru.

## Nodiadau drafftio

Mae model reolau sefydlog mewn llythrennau tywyll yn cynnwys gofynion statudol. Argymhellir fod cynghorau yn eu mabwysiadu heb eu newid na newid eu hystyr. Pwrpas model reolau sefydlog eraill nad ydynt mewn llythrennau tywyll yw helpu cynghorau i weithredu'n effeithiol ond nid ydynt yn cynnwys gofynion statudol fel y gellir eu mabwysiadu fel y maent neu eu newid yn ôl anghenion y Cyngor. Barn Un Llais Cymru yw y bydd pob model reol sefydlog yn addas i gynghorau yn gyffredinol.

Er cyfleustra, defnyddir y gair "cynghorydd" mewn model reolau sefydlog ac mae'n cynnwys person heb fod yn gynghorydd a chanddo/i hawliau pleidleisio neu heb rai oni nodir yn wahanol. Mae model reol sefydlog sy'n cynnwys cromfachau fel hyn '(   )' yn galw ar Gyngor i ychwanegu gwybodaeth. Mae model reol sefydlog sy'n cynnwys cromfachau fel hyn '[   ]' a'r term 'NEU' yn cynnig dewisiadau amgen y gall y Cyngor ddewis o'u plith wrth gytuno ar reolau sefydlog.

# 1. RHEOLAU TRAFOD MEWN CYFARFODYDD

a Bydd cynigion ar yr agenda yn cael eu hystyried yn y drefn yr ymddangosant oni chaiff y drefn ei newid yn ôl doethineb cadeirydd y cyfarfod.

b Ni fydd cynnig (gan gynnwys gwelliant) yn cael ei drafod oni chafodd ei gynnig a'i eilio.

c Gall cadeirydd y cyfarfod drin cynnig ar yr agenda na chaiff ei gynnig gan ei gynigydd yn un a dynnwyd yn ôl.

d Os cafodd cynnig (gan gynnwys gwelliant) ei eilio, ni all y cynigydd ei dynnu'n ôl ond gyda chydsyniad yr eilydd a'r cyfarfod.

e Mae gwelliant yn gynnig i ddileu neu ychwanegu geiriau at gynnig. Ni fydd yn negyddu'r cynnig.

f Os caiff gwelliant i'r cynnig gwreiddiol ei dderbyn, daw'r cynnig gwreiddiol yn gynnig sylweddol y gellir cyflwyno gwelliant neu welliannau eraill arno.

g Ni chaiff gwelliant ei ystyried oni roddir rhybudd llafar cynnar amdano yn y cyfarfod ac, os yw cadeirydd y cyfarfod yn gofyn am hynny, onid yw'n cael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r cadeirydd.

h Gall cynghorydd gyflwyno gwelliant ar ei g/chynnig ei hun os yw'r cyfarfod yn cytuno â hynny. Os cafodd cynnig ei eilio'n barod, rhaid cael cydsyniad yr eilydd a'r cyfarfod cyn cyflwyno gwelliant.

i Os oes mwy nac un gwelliant i gynnig gwreiddiol neu sylweddol, cyflwynir y gwelliannau yn y drefn a benderfynir gan gadeirydd y cyfarfod.

j Yn amodol ar reol sefydlog 1(k), cyflwynir a thrafodir un gwelliant ar y tro, a bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ym mha drefn y cânt eu cyflwyno.

k Gellir trafod un gwelliant neu ragor gyda'i gilydd os yw cadeirydd y cyfarfod yn barnu fod hynny'n fanteisiol ond rhaid pleidleisio ar bob gwelliant ar wahân.

l Ni all cynghorydd gyflwyno mwy nac un gwelliant i gynnig gwreiddiol neu sylweddol.

m Nid oes gan gynigydd gwelliant unrhyw hawl i ymateb ar ddiwedd trafodaeth arno.

n Pan mae cyfres o welliannau i gynnig gwreiddiol yn cael eu derbyn, bydd gan gynigydd y cynnig gwreiddiol yr hawl i ymateb naill ai ar ddiwedd y

drafodaeth ar y gwelliant cyntaf neu ar ddiwedd y drafodaeth ar y cynnig sylweddol olaf yn union cyn cymryd pleidlais arno.

o Onid yw cadeirydd y cyfarfod yn caniatáu hynny, unwaith yn unig y caiff cynghorydd siarad mewn trafodaeth ar gynnig ac eithrio:

i. i siarad ar welliant a gyflwynir gan gynghorydd arall;
ii. i gyflwyno neu siarad ar welliant arall os cyflwynwyd gwelliant i’r cynnig ers iddo/i siarad ddiwethaf;
iii. i wneud pwynt o drefn;
iv. i gynnig esboniad personol; neu
v. wrth ddefnyddio hawl i ymateb.

p Wrth drafod cynnig, ni all cynghorydd ymyrryd ond ar bwynt o drefn neu i gynnig esboniad personol a bydd y cynghorydd y torrir ar ei /thraws yn peidio siarad. Bydd cynghorydd sy’n codi pwynt o drefn yn enwi’r rheol sefydlog y mae’n credu gafodd ei thorri neu’n nodi unrhyw afreoleidd-dra y mae’n poeni amdano yn y ffordd y cynhelir y cyfarfod.

q Bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ar bwynt o drefn a bydd ei b/phenderfyniad yn derfynol.

r Pan mae cynnig yn cael ei drafod, ni chaiff unrhyw gynnig arall ei gyflwyno ac eithrio:

i. i gyflwyno gwelliant i’r cynnig;
ii. i symud at yr eitem nesaf;
iii. i ohirio’r drafodaeth;
iv. i gynnal pleidlais ar y cynnig;
v. i ofyn na ddylid rhoi gwrandawiad pellach i berson neu y dylai adael y cyfarfod;
vi. i gyfeirio’r cynnig at bwyllgor neu is-bwyllgor i’w ystyried;
vii. i eithrio’r cyhoedd a’r wasg;
viii. i ohirio’r cyfarfod; neu
ix. i atal rheol(au) sefydlog penodol ac eithrio’r rhai sy’n adlewyrchu gofynion statudol gorfodol.

s Cyn cynnal pleidlais ar gynnig gwreiddiol neu sylweddol, rhaid i gadeirydd y cyfarfod fod yn fodlon y cafodd y cynnig ei drafod yn ddigonol a bod cynigydd y cynnig dan sylw wedi defnyddio neu ildio ei hawl i ymateb.

t Ac eithrio cynigion a gyflwynwyd o dan reol sefydlog 1(r), ni fydd cyfraniadau neu areithiau gan gynghorydd ond yn ymwneud â’r cynnig dan sylw ac ni fyddant yn hirach na 5 munud heb gydsyniad cadeirydd y

cyfarfod.

## 2. YMDDYGIAD AFREOLUS MEWN CYFARFODYDD

a Ni fydd unrhyw berson yn atal gwaith cyfarfod nac yn ymddwyn yn dramgwyddus neu’n amhriodol. Os anwybyddir y rheol sefydlog hon, bydd cadeirydd y cyfarfod yn gofyn i’r cyfryw berson(au) bwyllo neu wella eu hymddygiad.

b Os yw person(au) yn anwybyddu cais cadeirydd y cyfarfod i bwyllo neu wella eu hymddygiad, gall unrhyw gynghorydd neu gadeirydd y cyfarfod gynnig na ddylid rhoi gwrandawiad i’r person mwyach neu y dylid eu heithrio o’r cyfarfod. Cynhelir pleidlais ar y cynnig, os caiff ei eilio, heb unrhyw drafodaeth.

c Os yw penderfyniad a wneir o dan reol sefydlog 2(b) yn cael ei anwybyddu, gall cadeirydd y cyfarfod gymryd camau rhesymol i adfer trefn neu er mwyn symud y cyfarfod ymlaen. Gall hyn gynnwys atal y cyfarfod dros dro neu ei gau.

## 3. CYFARFODYDD YN GYFFREDINOL

Cyfarfodydd Cyngor Llawn ●
Cyfarfodydd Pwyllgorau ●
Cyfarfodydd Is-bwyllgorau ●

a Hysbysiadau am gyfarfodydd

i. Rhaid cyhoeddi’r hysbysiad (gan gynnwys sut ellir mynychu’r cyfarfod yn rhithiol, os yn berthnasol) yn electronaidd ac mewn lle amlwg yn y gymuned o leiaf dri diwrnod llawn cyn y cyfarfod, neu os yw’r cyfarfod yn cael ei gynnull gyda llai o rybudd, adeg ei gynnull.

ii. Os yw aelod eisiau derbyn y wŷs yn ysgrifenedig yn hytrach nac yn electronaidd i’r cyfeiriad a roddwyd iddynt neu’r cyfeiriad y rhoddwyd gwybod amdano i’r clerc, rhaid iddynt roi rhybudd ysgrifenedig i’r clerc a nodi i ba gyfeiriad post y dylid danfon y wŷs.

iii. Rhaid i’r hysbysiad gynnwys manylion am sut i fynychu’r cyfarfod o bell, ynghyd ag amser a lleoliad y cyfarfod. Gellir gadael y lleoliad allan os fydd y cyfarfod yn cael ei gynnal o bell.

iv. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir cynnull cyfarfod o

bwyllgor neu is-bwyllgor y Cyngor gyda llai o rybudd. Mewn sefyllfa felly, dylid cyhoeddi hysbysiadau gan roi o leiaf 24 awr o rybudd.

Mae'r gofynion hysbysu hyn yn berthnasol hefyd os cynhelir cyfarfod ffurfiol nad yw'n agored i'r cyhoedd.

b Cyfarfodydd aml-leoliad

i. Rhaid i bob cyngor cymuned wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer ei gyfarfodydd er mwyn galluogi pobl nad ydynt yn yr un lle i gyfarfod. O dan y trefniadau, bydd angen i gynghorau gymryd camau rhesymol i alluogi cyfarfodydd i gael eu cynnal o fwy nac un lleoliad. Os yw'r trefniadau'n cael eu haddasu neu eu newid rhaid cyhoeddi'r trefniadau newydd hefyd.

ii. Y gofynion isaf-derbyniol yw y gall aelodau glywed a chael eu clywed gan eraill.

Cyfarfodydd yn Gyffredinol – Arall.

● a **Nid yw'r isafswm o dri diwrnod llawn ar gyfer hysbysiad am gyfarfod yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad arno, diwrnod y cyfarfod, dydd Sul, diwrnod gwyliau Nadolig, diwrnod gwyliau'r Pasg neu ŵyl banc neu ddiwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.**

● b **Nid yw'r isafswm o dri diwrnod llawn ar gyfer hysbysiad cyhoeddus am gyfarfod yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad arno na diwrnod y cyfarfod oni bai y caiff y cyfarfod ei gynnull ar rybudd byrrach**

● ● c **Bydd cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd oni bai fod eu presenoldeb yn rhagfarnol i les y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y materion i'w trafod neu am resymau arbennig eraill. Caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod neu o ran ohono trwy benderfyniad fydd yn nodi rhesymau am eithrio'r cyhoedd a'r wasg.**

d Rhaid i'r person sy'n llywyddu yn y cyfarfod roi cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol gynnig eu sylwadau am unrhyw faterion a drafodir yn y cyfarfod, oni bai fod gwneud hynny yn debygol o amharu ar gynnal y cyfarfod mewn ffordd effeithiol. Nid yw hynny'n golygu y gall aelodau'r cyhoedd gymryd rhan mewn trafodaeth, ond

mae'n rhaid rhoi cyfle rhesymol iddynt wneud eu sylwadau am faterion a drafodir.

e Ni fydd y cyfnod amser a neilltuir ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfod yn unol â rheol sefydlog 3(d) yn fwy na 3 munud onid yw cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu'n wahanol.

f Yn amodol ar reol sefydlog 3(e), ni fydd aelod o'r cyhoedd yn siarad am fwy na 3 munud.

g Yn unol â rheol sefydlog 3(d), ni fydd cwestiwn yn gorfod cael ateb yn y cyfarfod nac yn agor trafodaeth ar y cwestiwn. Gall cadeirydd y cyfarfod gyfarwyddo y dylid rhoi ymateb ysgrifenedig neu lafar.

h Bydd person yn codi ei law/llaw wrth ofyn i gael siarad ac yn sefyll wrth siarad (ac eithrio pan mae gan berson anabledd neu os yw'n debyg o ddioddef anghysur)]. Gall cadeirydd y cyfarfod benderfynu ar unrhyw adeg caniatáu i berson barhau i eistedd wrth siarad.

i Bydd person sy'n siarad mewn cyfarfod yn cyfeirio ei sylwadau at gadeirydd y cyfarfod.

j Un person yn unig gaiff siarad ar y tro. Os yw mwy nac un person eisiau siarad, bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ym mha drefn y byddant yn siarad.

• • k **Ni chaniateir tynnu lluniau, recordio, darlledu neu drosglwyddo trafodion y cyfarfod mewn unrhyw ffordd heb gael cydsyniad y Cyngor**.

• • l **Bydd y wasg yn cael cyfleusterau rhesymol ar gyfer gwneud eu hadroddiad o gyfarfod neu ran ohono y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ynddo.**

• m **Yn amodol ar reolau sefydlog sy'n datgan yn wahanol, gall unrhyw beth yr awdurdodwyd iddo gael ei wneud gan, i neu gerbron Cadeirydd y Cyngor gael ei wneud yn eu habsenoldeb gan, i neu gerbron Is-Gadeirydd y Cyngor (os oes un).**

• n **Bydd Cadeirydd y Cyngor, os yn bresennol, yn llywyddu mewn cyfarfod. Os yw'r Cadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd Is-Gadeirydd y Cyngor (os oes un), os yn bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd cynghorydd a ddewisir gan gynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu yn y cyfarfod.**

• • o **Ar yr amod fod cworwm mewn cyfarfod, bydd pob mater mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif y cynghorwyr a phobl**

- **nad ydynt yn gynghorwyr a chanddynt hawl i bleidleisio sy'n bresennol ac yn pleidleisio.**

p **Gall cadeirydd cyfarfod fwrw pleidlais wreiddiol ar unrhyw fater y cynhelir pleidlais arno, a phan mae'r pleidleisio'n gyfartal gall ddefnyddio ei b/phleidlais fwrw os defnyddiodd bleidlais wreiddiol ai peidio.**

*Trowch at reolau sefydlog 5(h) ac (i) i weld y rheolau gwahanol sy'n berthnasol wrth ethol Cadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.*

q **Onid yw rheolau sefydlog yn trefnu fel arall, cynhelir pleidlais ar fater trwy godi dwylo. Os yw cynghorydd yn gofyn, bydd y pleidleisio ar unrhyw fater yn cael ei gofnodi er mwyn dangos a roddodd pob cynghorydd sy'n bresennol ac yn pleidleisio ei b/phleidlais dros neu yn erbyn y mater dan sylw.** Dylid gwneud cais o'r fath cyn symud ymlaen at yr eitem nesaf ar yr agenda.

r Bydd cofnodion cyfarfod yn cynnwys cofnod manwl-gywir o'r canlynol:

i. amser a lleoliad y cyfarfod;

ii. enwau'r cynghorwyr sy'n bresennol ac enwau'r cynghorwyr sy'n absennol;

iii. buddiannau a ddatganwyd gan gynghorwyr a phobl heb fod yn gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio;

iv. goddefebau a ganiatawyd (os oedd rhai) i gynghorwyr a phobl heb fod yn gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio;

v. a wnaeth cynghorydd neu bobl heb fod yn gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio adael y cyfarfod pan oedd materion a chanddynt fuddiannau ynddynt yn cael eu trafod;

vi. a gafwyd sesiwn cyfranogiad y cyhoedd; a'r

vii. penderfyniadau a wnaed.

s **Mae cynghorydd neu bobl heb fod yn gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio a chanddynt fuddiant personol neu ragfarnol mewn mater a drafodir mewn cyfarfod sy'n cyfyngu eu hawl i gymryd rhan mewn trafodaeth neu bleidlais ar y mater hwnnw yn gaeth i ymrwymiadau yn y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor**.

t **Ni ellir cyflawni unrhyw waith mewn cyfarfod onid oes o leiaf un rhan o dair o gyfanswm aelodau'r Cyngor yn bresennol ac ni fydd**

**cworwm cyfarfod yn llai na thri o dan unrhyw amgylchiadau.**

*Trowch at reol sefydlog 4d(viii) isod i gael manylion cworwm cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor.*

u **Os nad oes cworwm mewn cyfarfod ni ellir cyflawni unrhyw waith** a chaiff y cyfarfod ei gau. Caiff y materion ar agenda'r cyfarfod eu gohirio tan gyfarfod yn y dyfodol.

v Ni fydd cyfarfod yn parhau am fwy na 3 awr.

## 4. PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

a **Oni bai fod y Cyngor yn penderfynu'n wahanol, gall pwyllgor benodi is-bwyllgor y caiff ei gylch gorchwyl a'i aelodau eu penderfynu gan y pwyllgor.**

b **Gall aelodau'r pwyllgor gynnwys pobl heb fod yn gynghorwyr onid yw'n bwyllgor sy'n rheoleiddio a rheoli cyllid y Cyngor.**

c **Oni bai fod y Cyngor yn penderfynu'n wahanol, gall holl aelodau pwyllgor ymgynghorol ac is-bwyllgor y pwyllgor ymgynghorol fod yn bobl heb fod yn gynghorwyr.**

d Gall y Cyngor benodi pwyllgorau sefydlog neu bwyllgorau eraill yn ôl y gofyn, a:

i. bydd yn pennu eu cylch gorchwyl;
ii. bydd yn pennu nifer ac amser cyfarfodydd cyffredin pwyllgor sefydlog hyd at ddyddiad cyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor;
iii. bydd yn caniatáu i bwyllgor, ac eithrio ar gyfer cyfarfodydd cyffredin pwyllgor, bennu nifer ac amser ei gyfarfodydd;
iv. bydd, yn amodol ar reolau sefydlog 4(b) ac (c), yn penodi a phennu cyfnodau gwasanaeth aelodau pwyllgor o'r fath;
v. gall, yn amodol ar reolau sefydlog 4(b) ac (c), benodi a phennu cyfnodau gwasanaeth eilydd aelodau pwyllgor fydd yn cymryd lle'r aelodau arferol mewn cyfarfod o'r pwyllgor os yw aelodau arferol y pwyllgor yn cadarnhau i'r Swyddog Priodol 3 diwrnod cyn y cyfarfod na allant fod yn bresennol
vi. bydd, ar ôl penodi aelodau pwyllgor sefydlog, yn penodi cadeirydd y pwyllgor sefydlog;
vii. bydd yn caniatáu i bwyllgor ac eithrio pwyllgor sefydlog, benodi ei gadeirydd ei hun yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor;

viii. bydd yn pennu lle, gofynion hysbysu a chworwm ar gyfer cyfarfod pwyllgor ac is-bwyllgor na fydd yn llai na thri;
ix. bydd yn penderfynu os gall y cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfod pwyllgor;
x. bydd yn penderfynu os caiff y cyhoedd a’r wasg fynychu cyfarfodydd is-bwyllgor ac yn pennu’r gofynion ar gyfer hysbysu’r cyhoedd ymlaen llaw, os oes rhai, ar gyfer cyfarfodydd is-bwyllgor;
xi. bydd yn penderfynu a all y cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfod o’r is-bwyllgor y mae ganddynt hawl i’w fynychu; a
xii. gall ddiddymu pwyllgor neu is-bwyllgor.

## 5. CYFARFODYDD CYNGOR CYFFREDIN

a **Mewn blwyddyn etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ar neu o fewn 14 diwrnod yn dilyn y diwrnod y mae’r cynghorwyr newydd a etholwyd yn ymgymryd â’u swydd.**

b **Mewn blwyddyn nad yw’n flwyddyn etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol Cyngor ar ba ddiwrnod bynnag ym mis Mai a ddewisir gan y Cyngor.**

c **Os na bennir unrhyw amser arall, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor am 6pm.**

d **Yn ogystal â chyfarfod blynyddol y Cyngor, gellir cynnal unrhyw nifer o gyfarfodydd cyffredin eraill bob blwyddyn ar ba ddyddiadau ac amserau bynnag a ddewisir gan y Cyngor.**

e **Y mater cyntaf a gaiff sylw yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor fydd ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd (os oes un) y Cyngor.**

f **Bydd Cadeirydd y Cyngor, onid yw wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei h/anghymwyso, yn parhau yn ei swydd ac yn llywyddu yn y cyfarfod blynyddol nes yr etholir ei h/olynydd yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.**

g **Bydd Is-Gadeirydd y Cyngor, os oes un, onid yw wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei h/anghymwyso, yn ei swydd hyd nes yn union wedi ethol Cadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.**

h **Mewn blwyddyn etholiad, os na chafodd Cadeirydd presennol y Cyngor ei h/ail-ethol yn aelod o’r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes yr etholwyd Cadeirydd newydd y Cyngor. Ni fydd gan Gadeirydd presennol y Cyngor bleidlais wreiddiol ar gyfer ethol**

**Cadeirydd newydd y Cyngor ond bydd yn rhoi pleidlais fwrw os yw'r pleidleisio'n gyfartal.**

i **Mewn blwyddyn etholiad, os cafodd Cadeirydd presennol y Cyngor ei h/ail-ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes yr etholwyd Cadeirydd newydd y Cyngor. Gall ddefnyddio pleidlais wreiddiol ar gyfer ethol Cadeirydd newydd y Cyngor a bydd yn rhoi pleidlais fwrw os yw'r pleidleisio'n gyfartal.**

j Wedi ethol Cadeirydd y Cyngor ac Is-Gadeirydd (os oes un) y Cyngor yn y cyfarfod blynyddol, bydd gwaith y cyfarfod yn cynnwys:

i. **Mewn blwyddyn etholiad, Cadeirydd y Cyngor a chynghorwyr yn cyflwyno eu ffurflenni derbyn swydd onid yw'r Cyngor yn penderfynu y gellir gwneud hyn yn ddiweddarach. Mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno ei ffurflen derbyn swydd onid yw'r Cyngor yn penderfynu y gellir gwneud hyn yn ddiweddarach;**

ii. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor;
iii. Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf pwyllgor;
iv. Ystyried argymhellion a wnaed gan bwyllgor;
v. Adolygu trefniadau dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau, staff ac awdurdodau lleol eraill;
vi. Adolygu cylchoedd gorchwyl pwyllgorau;
vii. Penodi aelodau ar bwyllgorau presennol;
viii. Penodi unrhyw bwyllgorau newydd yn unol â rheol sefydlog 4;
ix. Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol priodol;
x. Adolygiad o'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer defnyddio'r grym cymhwysedd cyffredinol

xi. Adolygu a mabwysiadu adroddiad blynyddol y Cyngor

xii. Adolygu a mabwysiadu cynllun hyfforddiant y Cyngor

xiii. Adolygiad o'r trefniadau (gan gynnwys cytundebau cyfreithiol) gydag awdurdodau lleol eraill, cyrff nid ar gyfer elw a busnesau;

xiv. Adolygu cynrychiolaeth ar neu waith gyda chyrff allanol a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl;

xv. Adolygu stocrestr o dir ac asedau eraill gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa;

xvi. Cadarnhau trefniadau ar gyfer gwarant yswiriant ar gyfer pob risg yr yswiriwyd ar eu cyfer;

xvii. Adolygu tanysgrifiadau'r Cyngor a/neu staff i gyrff eraill;

xviii. Adolygu gweithdrefn cwynion y Cyngor;

xix. Adolygiad o bolisïau, gweithdrefnau ac arferion y Cyngor o ran ei ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data (*trowch hefyd at reolau sefydlog 11, 20 a 21*);

xx. Adolygu polisi'r Cyngor ar gyfer delio â'r wasg/cyfryngau;

xxi. Adolygu polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth y Cyngor;

xxii. Adolygiad o wariant y Cyngor a wnaed o dan a.137 Deddf Llywodraeth Leol 1972

xxiii. Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor hyd at a chan gynnwys cyfarfod blynyddol nesaf y Cyngor.

## 6. CYFARFODYDD EITHRIADOL O'R CYNGOR, PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

a **Gall Cadeirydd y Cyngor gynnull cyfarfod eithriadol o'r Cyngor ar unrhyw adeg.**

b **Os nad yw Cadeirydd y Cyngor yn cynnull cyfarfod eithriadol o'r Cyngor o fewn saith niwrnod i gael cais ysgrifenedig i wneud hynny gan ddau gynghorydd, gall unrhyw ddau gynghorydd gynnull cyfarfod eithriadol o'r Cyngor. Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus yn cynnwys amser, lle ac agenda'r cyfryw gyfarfod gael ei lofnodi gan y ddau gynghorydd.**

c Gall cadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor gynnull cyfarfod eithriadol o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor ar unrhyw adeg.

d Os nad yw cadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor yn cynnull cyfarfod eithriadol o fewn 7 diwrnod i gael cais i wneud hynny gan 4 aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, gall unrhyw a 4 aelod o'r pwyllgor a'r is-bwyllgor gynnull cyfarfod eithriadol o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor.

## 7. PENDERFYNIADAU BLAENOROL

a Ni fydd penderfyniad yn cael ei ddadwneud o fewn chwe mis ac eithrio naill ai trwy gynnig arbennig, sy'n galw am rybudd ysgrifenedig gan o leiaf 6 cynghorydd i'w roi i'r Swyddog Priodol yn unol â rheol sefydlog 9, neu trwy gynnig a gyflwynir yn sgîl argymhelliad pwyllgor neu is-bwyllgor.

b Pan ymdriniwyd â chynnig yn sgîl rheol sefydlog 7(a), ni ellir cyflwyno cynnig tebyg o fewn cyfnod pellach o chwe mis.

## 8. PLEIDLEISIO AR BENODIADAU

a Pan enwebwyd dau berson neu ragor ar gyfer swydd i'w llenwi gan y Cyngor a phan na chafodd yr un o'r personau hynny fwyafrif llwyr y pleidleisiau o'u plaid, tynnir enw'r person a chanddo/i'r nifer lleiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr ac fe gynhelir pleidlais newydd. Bydd y broses hon yn parhau hyd nes y rhoddwyd mwyafrif y pleidleisiau o blaid un person. Gellir datrys sefyllfa lle y mae'r pleidleisio'n gyfartal trwy i gadeirydd y cyfarfod ddefnyddio'r bleidlais fwrw.

## 9. CYNIGION AR GYFER CYFARFOD SY'N GALW AM ROI HYSBYSIAD YSGRIFENEDIG I'R SWYDDOG PRIODOL

a Bydd cynnig yn ymwneud â chyfrifoldebau'r cyfarfod y'i cyflwynwyd ar ei gyfer a bydd yn ddiwahân yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau, grymoedd neu gyfrifoldebau'r Cyngor neu fater sy'n effeithio'n benodol ar ardal y Cyngor neu ei drigolion.

b Ni ellir cyflwyno unrhyw gynnig mewn cyfarfod onid yw ar yr agenda ac oni roddodd y cynigydd hysbysiad ysgrifenedig o'i eiriad i'r Swyddog Priodol o leiaf 7 diwrnod llawn cyn y cyfarfod. Nid yw dyddiau llawn yn cynnwys diwrnod yr hysbysiad na diwrnod y cyfarfod.

c Gall y Swyddog Priodol, cyn cynnwys cynnig ar yr agenda a dderbyniwyd yn unol â rheol sefydlog 9(b), gywiro camgymeriadau gramadegol neu deipograffyddol amlwg yng ngeiriad y cynnig.

d Os yw'r Swyddog Priodol yn credu nad yw ystyr geiriad cynnig a dderbyniwyd yn unol â rheol sefydlog 9(b) yn glir, caiff y cynnig ei wrthod nes bod cynigydd y cynnig yn ei ail-gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol fel ei fod yn ddealladwy o leiaf 7 diwrnod llawn cyn y cyfarfod.

e Os yw geiriad cynnig arfaethedig yn cael ei ystyried yn amhriodol, bydd y Swyddog Priodol yn trafod gyda chadeirydd y cyfarfod arfaethedig neu, fel y bo'n briodol, y cynghorwyr a gynullodd y cyfarfod, i ystyried a fydd y cynnig yn cael ei gynnwys ar yr agenda neu'n cael ei wrthod.

f Bydd penderfyniad y Swyddog Priodol ynghylch a ddylid cynnwys y cynnig ar yr agenda yn derfynol.

g Caiff cynigion a dderbynnir eu cofnodi a'u rhifo yn nhrefn eu derbyn.

h Cofnodir cynigion a gafodd eu gwrthod ac fe gynhwysir esboniad am eu gwrthod gan y Swyddog Priodol.

## 10. CYNIGION MEWN CYFARFOD NAD OES ANGEN HYSBYSIAD YSGRIFENEDIG AR EU CYFER

a Gellir cyflwyno'r cynigion canlynol mewn cyfarfod heb roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol:

i. cywiro anghywirdeb yn nrafft gofnodion cyfarfod;
ii. symud at bleidlais;
iii. gohirio trafod cynnig;
iv. cyfeirio cynnig at bwyllgor neu is-bwyllgor penodol;
v. penodi person i lywyddu mewn cyfarfod;
vi. newid trefn materion ar yr agenda;
vii. symud ymlaen at y mater nesaf ar yr agenda;
viii. gofyn am adroddiad ysgrifenedig;
ix. penodi pwyllgor neu is-bwyllgor a'u haelodau;
x. cynyddu'r terfynau amser ar gyfer siarad;
xi. eithrio'r wasg a'r cyhoedd o gyfarfod oherwydd gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif sy'n rhagfarnol i les y cyhoedd;

xii. peidio rhoi gwrandawiad pellach i gynghorydd neu aelod o'r cyhoedd;
xiii. eithrio cynghorydd neu aelod o'r cyhoedd oherwydd ymddygiad afreolus;
xiv. atal y cyfarfod dros dro;
xv. atal rheol sefydlog benodol (oni bai ei bod yn adlewyrchu gofynion statudol gorfodol);
xvi. gohirio'r cyfarfod; neu
xvii. gau cyfarfod.

## 11. RHEOLI GWYBODAETH

*Trowch hefyd at reol sefydlog 20.*

a **Bydd y Cyngor yn meddu ar ac yn adolygu camau technegol a threfniadol i gadw gwybodaeth ddiogel (gan gynnwys data personol) sydd ganddo ar bapur ac yn electronaidd. Bydd trefniadau o'r fath yn cynnwys penderfynu gan bwy mae'r hawl i weld data personol a data personol a amgryptiwyd.**

b **Bydd y Cyngor yn meddu ar ac yn adolygu polisïau ar gyfer cadw a dinistrio'n ddiogel yr holl wybodaeth sydd ganddo (gan gynnwys data personol) ar bapur, wedi'i recordio ac yn electronaidd. Bydd polisi cadw'r Cyngor yn cadarnhau am ba gyfnod y bydd gwybodaeth (gan gynnwys data personol) yn cael ei chadw neu os nad yw hynny'n bosib y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu ar y cyfnod hwnnw (e.e., Deddf Cyfyngiadau Achosion 1980).**

c **Ni fydd yr agenda, papurau sy'n cefnogi'r agenda a chofnodion cyfarfod yn datgelu nac mewn unrhyw ffordd arall yn tanseilio gwybodaeth gyfrinachol na data personol heb gyfiawnhad cyfreithiol.**

d **Ni fydd cynghorwyr, staff, contractwyr ac asiantwyr y Cyngor yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol na data personol heb gyfiawnhad cyfreithiol.**

## 12. DRAFFT GOFNODION

a Os rhoddwyd drafft gofnodion cyfarfod blaenorol i gynghorwyr gyda'r agenda ar gyfer mynychu'r cyfarfod lle y caiff eu cywirdeb ei gadarnhau, fe'u derbynnir fel y maent.

b Ni fydd unrhyw drafod ar ddrafft gofnodion cyfarfod blaenorol ac eithrio ynghylch eu cywirdeb. Rhaid cyflwyno cynnig i gywiro anghywirdeb yn y drafft gofnodion yn unol â rheol sefydlog **10** (a)(i).

c Bydd cywirdeb drafft gofnodion, gan gynnwys unrhyw welliant/welliannau a wneir iddynt, yn cael ei gadarnhau trwy benderfyniad a chânt eu llofnodi gan gadeirydd y cyfarfod ac maent yn sefyll yn gofnod cywir o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef.

d Os nad yw cadeirydd y cyfarfod yn credu fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef, bydd yn llofnodi'r cofnodion ac yn cynnwys paragraff fel a ganlyn neu i'r un perwyl:

"Nid yw cadeirydd y cyfarfod hwn yn credu fod cofnodion y cyfarfod y (   ) a gynhaliwyd ar [dyddiad] o ran (   ) yn gofnod cywir ond ni chafodd y farn honno ei chefnogi gan y cyfarfod ac fe gadarnhawyd y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodion."

e Yn amodol ar reol sefydlog **20**(a) ac wedi gwneud penderfyniad sy'n cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod, caiff drafft gofnodion neu recordiadau'r cyfarfod y ceir cofnodion wedi'u cymeradwyo ar ei gyfer eu dinistrio.

f) **heb fod yn hwyrach na deg diwrnod gwaith cyn cyfarfod Cyngor, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'n electronaidd nodyn yn cynnwys:**

- **Enwau'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ac unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb;**
- **Unrhyw ddatganiadau o fuddiannau; ac**
- **Unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod, gan gynnwys canlyniad unrhyw bleidleisiau.**

**Nid yw'r angen i gyhoeddi'r nodyn wedi cyfarfod Cyngor yn berthnasol i fusnes preifat nac i sefyllfaoedd lle y byddai datgelu yn effeithio'n andwyol ar y sawl sy'n gweithredu ar y penderfyniadau hynny.**

## 13. COD YMDDYGIAD A GODDEFEBAU

*Trowch hefyd at reol sefydlog 3(s).*

a **Bydd cynghorwyr a phobl heb fod yn gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio yn cadw at y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.**

b Bydd pob cynghorydd a phobl nad ydynt yn gynghorwyr a chanddynt

hawliau pleidleisio yn cael hyfforddiant ar y cod ymddygiad o fewn chwe mis iddynt gyflwyno eu ffurflen derbyn swydd.

c **Rhaid gwneud ceisiadau am oddefeb yn ysgrifenedig a'u cyflwyno i bwyllgor safonau** y **Cyngor Sir** cyn gynted ag y bo modd cyn y cyfarfod y mae angen yr oddefeb ar ei gyfer.

## 14. CWYNION COD YMDDYGIAD

a Wedi cael gwybod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei fod yn delio â chŵyn fod cynghorydd neu berson heb fod yn gynghorydd a chanddynt hawliau pleidleisio wedi torri cod ymddygiad y Cyngor, bydd y Swyddog Priodol, yn amodol ar reol sefydlog **13**, yn adrodd hyn i'r Cyngor.

b Pan mae'r hysbysiad yn rheol sefydlog **14**(a) yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan y Swyddog Priodol, bydd y Swyddog Priodol yn rhoi gwybod am hyn i Gadeirydd y Cyngor, a bydd y Cadeirydd yn enwebu aelod arall o'r staff i gyflawni dyletswyddau'r Swyddog Priodol ynghylch y gŵyn hyd nes y penderfynwyd y gŵyn.

c Gall y Cyngor:

i. ddarparu gwybodaeth neu dystiolaeth lle y mae angen datgeliad o'r fath er mwyn sicrhau bod y gŵyn yn cael ei hymchwilio neu oherwydd bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith;
ii. geisio gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn oddi wrth y person neu gorff a chanddynt gyfrifoldeb statudol i ymchwilio'r mater;
iii. indemnio'r cynghorydd neu berson heb fod yn gynghorydd a chanddo/i hawliau pleidleisio o ran ei g/chostau cyfreithiol cysylltiol ac mae'n rhaid i unrhyw indemniad o'r fath gael ei gymeradwyo gan gyfarfod o'r Cyngor.

## 15. SWYDDOG PRIODOL

a Y Swyddog Priodol fydd naill ai (i) y clerc neu (ii) aelod(au) staff eraill a enwebwyd gan y Cyngor i gyflawni gwaith y Swyddog Priodol pan mae'r Swyddog Priodol yn absennol.

i. Bydd y Swyddog Priodol **o leiaf dri diwrnod llawn cyn cyfarfod o'r Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor**:

a) Yn trefnu cyflwyno'r hysbysiad (gan gynnwys sut ellir mynychu'r cyfarfod yn rhithiol, (os yn berthnasol) y mae'n rhaid ei gyhoeddi'n electronaidd ac mewn lle amlwg yn y gymuned o leiaf dri diwrnod

llawn cyn y cyfarfod, neu os yw'r cyfarfod yn cael ei gynnull gyda llai o rybudd, ar yr adeg y caiff ei gynnull.
b) Os yw aelod eisiau derbyn y wŷs yn ysgrifenedig yn hytrach nac yn electronaidd, rhaid iddynt roi gwybod i'r clerc yn ysgrifenedig a nodi'r cyfeiriad post y dylid danfon y wŷs iddo.
c) Rhaid i'r hysbysiad gynnwys manylion am sut i fynychu'r cyfarfod o bell, ac amser a lleoliad y cyfarfod. Gellir gadael y lleoliad allan os bwriedir cynnal y cyfarfod o bell yn unig.

d) Rhaid i'r hysbysiad fod ar gael mewn lle amlwg gan roi gwybod am yr amser, lleoliad ac agenda (ar yr amod fod yr hysbysiad cyhoeddus ac agenda cyfarfod eithriadol o'r Cyngor a gynullwyd gan gynghorwyr wedi cael ei lofnodi ganddynt) a'i gyhoeddi'n electronaidd yn cynnwys manylion yr amser a'r lleoliad ac, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, unrhyw ddogfennau yn gysylltiedig â'r materion a drafodir yn y cyfarfod oni bai eu bod yn ymwneud â mater sy'n debygol o gael ei ystyried yn breifat neu pe bai eu datgelu yn groes i unrhyw ddeddfiad.

*Trowch at reol sefydlog* ***3(a) a (b) (*****Cyfarfodydd yn Gyffredinol – Arall.)** *(i weld ystyr dyddiau llawn ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor llawn ac ar gyfer cyfarfod pwyllgor;*

ii. yn amodol ar reol sefydlog 9, yn cynnwys ar yr agenda yr holl gynigion yn y drefn y'u derbyniwyd oni roddodd cynghorydd hysbysiad ysgrifenedig o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod yn cadarnhau ei f/bod yn ei dynnu'n ôl;

iii. **yn cynnull cyfarfod o'r Cyngor ar gyfer ethol Cadeirydd newydd i'r Cyngor, a hynny oherwydd y daeth ei swydd yn wag;**

iv. **yn gwneud trefniadau i alluogi etholwyr llywodraeth leol i archwilio'r llyfr cofnodion;**

v. **yn derbyn a chadw copïau o is-ddeddfau a wnaed gan awdurdodau lleol eraill;**

vi. yn cadw ffurflenni derbyn swyddi gan gynghorwyr;

vii. yn cadw copi o gofrestr buddiannau pob cynghorydd pan mae'r Cyngor wedi penderfynu fod rhaid i gynghorwyr ddatgan buddiannau ymlaen llaw;

viii. yn cynorthwyo gydag ymateb i geisiadau a wnaed o dan ddeddfwriaeth a hawliau rhyddid gwybodaeth y gellir eu defnyddio o dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol y Cyngor;

ix. yn cysylltu, yn ôl y galw, gyda Swyddog Diogelu Data'r Cyngor (os oes un);

x. yn derbyn a danfon gohebiaeth a hysbysiadau cyffredinol ar ran y Cyngor ac eithrio pan wnaed penderfyniad yn groes i hynny;

xi. yn cynorthwyo gyda'r gwaith o storio, cael mynediad at a dinistrio gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor ar bapur ac ar ffurf electronaidd yn amodol ar ofynion deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth a diogelu data a gofynion dilys eraill (e.e., Deddf Cyfyngiadau Achosion 1980);

xii. yn trefnu fod gweithredoedd cyfreithiol yn cael eu cyflawni;

*Trowch hefyd at reol sefydlog **23**;*

xiii. yn trefnu neu'n rheoli awdurdodi, cymeradwyo a chyfarwyddo'n ddiymdroi unrhyw daliadau i'w gwneud gan y Cyngor yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor;

xiv. yn cofnodi pob cais cynllunio y cafodd y Cyngor wybod amdanynt ac ymateb y Cyngor i'r awdurdod cynllunio lleol mewn llyfr pwrpasol i'r perwyl hwnnw;

xv. yn cyfeirio cais cynllunio a dderbyniwyd gan y Cyngor llawn] o fewn dau ddiwrnod gwaith i'w dderbyn i drefnu cyfarfod eithriadol os yw natur y cais cynllunio yn golygu fod rhaid ei ystyried cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

xvi. yn rheoli mynediad at wybodaeth am y Cyngor trwy'r cynllun cyhoeddiadau; ac

xvii. yn cadw sêl y Cyngor (os oes un) na chaiff ei defnyddio heb wneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw.
*Trowch hefyd at reol sefydlog **23**.*

## 16. SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL

a Bydd y Cyngor yn penodi aelod(au) priodol o'r staff i gyflawni gwaith y Swyddog Ariannol Cyfrifol pan mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn absennol.

## 17. CYFRIFON A DATGANIADAU CYFRIFO

a Mae “arferion priodol” mewn rheolau sefydlog yn cyfeirio at fersiwn ddiweddaraf “Llywodraethiant ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr”.

b Bydd pob taliad gan y Cyngor yn cael ei awdurdodi, ei gymeradwyo a’i wneud yn unol â’r gyfraith, arferion priodol a rheoliadau ariannol y Cyngor.

c Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn rhoi i bob cynghorydd cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl 30 Mehefin, 30 Medi a 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ddatganiad i grynhoi:

i. derbyniadau a thaliadau (neu incwm a gwariant) y Cyngor ar gyfer pob chwarter;

ii. derbyniadau a thaliadau (neu incwm a gwariant) agregad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn hyd hynny;

iii. y gweddillion sydd ar gael ar ddiwedd y chwarter yr adroddir arno

ac sy’n cynnwys cymhariaeth gyda’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ac sy’n amlygu unrhyw orwariannau gwirioneddol neu bosib.

d Cyn gynted ag y bo modd wedi diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn darparu:

i. datganiad i bob cynghorydd yn crynhoi derbyniadau a thaliadau (neu incwm a gwariant) y Cyngor ar gyfer y chwarter diwethaf a’r flwyddyn hyd hynny er gwybodaeth; ac
ii. i’r Cyngor y datganiadau cyfrifo ar gyfer y flwyddyn ar ffurf Adran 2 y datganiad llywodraethiant ac atebolrwydd blynyddol, fel sy’n ofynnol gan arferion priodol, i’w hystyried a’u cymeradwyo.

e Caiff datganiadau cyfrifo diwedd blwyddyn eu paratoi yn unol ag arferion priodol a chan ddefnyddio’r ffurf o gyfrifon a bennir gan y Cyngor (derbyniadau a thaliadau, neu incwm a gwariant) ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth. Cyflwynir drafft ddatganiad llywodraethiant ac atebolrwydd blynyddol cyflawn i bob cynghorydd o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad disgwyliedig ei gymeradwyo gan y Cyngor. Cyflwynir datganiad llywodraethiant ac atebolrwydd blynyddol y Cyngor, sy’n cael ei archwilio’n flynyddol, gan gynnwys y datganiad llywodraethiant blynyddol, i’r Cyngor i’w ystyried a’i gytuno’n ffurfiol cyn 30 Mehefin.

## 18. RHEOLYDDION ARIANNOL A CHAFFAEL

a Bydd y Cyngor yn ystyried a chymeradwyo rheoliadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, fydd yn cynnwys trefniadau manwl ar gyfer y canlynol:

i. cadw cofnodion cyfrifo a systemau rheolaeth fewnol;
ii. asesu a rheoli risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor;
iii. gwaith yr archwilydd mewnol annibynnol yn unol ag arferion priodol a derbyn adroddiadau rheolaidd gan yr archwilydd mewnol, fydd yn gorfod cael eu darparu o leiaf yn flynyddol;
iv. galluogi cynghorwyr ac etholwyr lleol i archwilio a chopïo cyfrifon y Cyngor a/neu orchmynion talu; ac
v. a yw contractau ag iddynt werth tybiedig o dan **£25,000** oherwydd amgylchiadau arbennig yn cael eu heithrio o broses dendro neu ymarferiad caffael.

b Bydd rheoliadau ariannol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac o leiaf bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn gweddu i'w pwrpas.

c **Ar gyfer contract cyhoeddus a reoleiddir gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ag iddynt werth tybiedig dros £25,000 ond o dan y trothwyon perthnasol y cyfeirir atynt yn rheol sefydlog 17(f) defnyddir y trefniadau "archwiliad ysgafn" o dan Reoliadau 109-114 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 onid yw'n bwriadu defnyddio rhestr o gyflenwyr cymeradwy sy'n bod yn barod (cytundeb fframwaith).**

d Yn amodol ar ofynion ychwanegol yn rheoliadau ariannol y Cyngor, bydd y broses dendro ar gyfer contractau i gyflenwi nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu gyflawni gwaith yn cynnwys, man lleiaf, y camau canlynol:

i. bydd manyleb ar gyfer y nwyddau, deunyddiau, gwasanaethau neu waith i'w gyflawni yn cael ei pharatoi;

ii. bydd gwahoddiad i dendro yn cael ei baratoi i gadarnhau (i) manyleb y Cyngor (ii) yr amser, y dyddiad a'r cyfeiriad ar gyfer cyflwyno tendrau (iii) dyddiad ymateb ysgrifenedig y Cyngor i'r tendr a (iv) gwahardd darpar gontractwyr rhag cysylltu â chynghorwyr neu staff i annog neu gefnogi eu tendr y tu allan i'r broses a nodwyd;

iii. bydd y gwahoddiad i dendro yn cael ei hysbysebu mewn papur lleol ac mewn unrhyw fodd arall sy'n briodol;

iv. cyflwynir tendrau yn ysgrifenedig mewn amlen dan sêl wedi'i

marcio wedi'i chyfeirio at y Swyddog Priodol;

v. bydd tendrau'n cael eu hagor gan y Swyddog Priodol ym mhresenoldeb o leiaf un cynghorydd wedi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau;

vi. bydd tendrau'n cael eu hadrodd a'u hystyried gan bwyllgor priodol y Cyngor neu bwyllgor neu is-bwyllgor y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo.

e Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor, na phwyllgor nac is-bwyllgor y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo i ystyried tendrau, i dderbyn y tendr sy'n cynnig y pris isaf.

f **Pan mae gwerth contract yn debygol o fod yn fwy na'r trothwy a nodir gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth o bryd i'w gilydd, rhaid i'r Cyngor ystyried a yw Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 neu Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 yn berthnasol i'r contract ac, os yw'r naill Reoliad neu'r llall yn berthnasol, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r rheolau caffael. Gall Un Llais Cymru roi mwy o wybodaeth i'r Cyngor yn hyn o beth.**

## 19. TRIN MATERION STAFF

a Mae mater sy'n bersonol i aelod o staff sy'n cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor.

b Yn amodol ar bolisi'r Cyngor ar absenoldebau o'r gwaith, bydd aelod staff uchaf y Cyngor yn rhoi gwybod i gadeirydd y pwyllgor neu, os nad yw ar gael, i is-gadeirydd (os oes un) y pwyllgor am absenoldeb a achoswyd gan salwch neu reswm arall a bydd y cyfryw berson yn rhoi gwybod am absenoldeb o'r fath i'r pwyllgor yn ei gyfarfod.

c Bydd cadeirydd y pwyllgor neu yn ei absenoldeb, yr is-gadeirydd yn dilyn penderfyniad i'r perwyl hwnnw yn cynnal adolygiad o berfformiad ac arfarniad blynyddol o waith y Clerc. Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig ar yr adolygiadau a'r arfarniad i'r pwyllgor a fydd yn gwneud penderfyniad arno.

d Yn amodol ar bolisi'r Cyngor ar drin achwyniadau, bydd gweithiwr uchaf y Cyngor (neu aelodau eraill o'r staff) yn cysylltu â chadeirydd y pwyllgor neu, yn ei absenoldeb, i is-gadeirydd y pwyllgor ynghylch achwyniad anffurfiol neu ffurfiol, a chaiff y mater ei adrodd yn ôl i'r pwyllgor a fydd yn gweithredu arno trwy benderfyniad.

e Yn amodol ar bolisi'r Cyngor ar drin achwyniadau, os yw achwyniad

anffurfiol neu ffurfiol a godir gan y Clerc yn ymwneud â chadeirydd neu is-gadeirydd y pwyllgor , caiff ei gyflwyno i sylw aelod arall o'r pwyllgor , a chaiff ei adrodd yn ôl i'r pwyllgor a fydd yn gweithredu arno trwy benderfyniad.

f Bydd unrhyw bersonau sy'n gyfrifol yn gyfan neu'n rhannol am reoli staff yn trin cofnodion ysgrifenedig pob cyfarfod yn ymwneud â'u perfformiad, galluoedd, achwyniad neu faterion disgyblaeth yn gyfrinachol.

g Yn unol â rheol sefydlog **11**(a), bydd personau a chanddynt gyfrifoldebau rheoli llinell yn gallu gweld cofnodion staff y cyfeirir atynt yn rheol sefydlog **19**(f).

## 20. CYFRIFOLDEBAU I DDARPARU GWYBODAETH

*Trowch hefyd at reol sefydlog 21.*

a **Yn unol â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth, bydd y Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'i gynllun cyhoeddi ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth sydd ym meddiant y Cyngor.**

## 21. CYFRIFOLDEBAU O DAN DDEDDFWRIAETH DIOGELU DATA

(Nid yw'r isod yn rhestr hollgynhwysol).

*Trowch hefyd at reol sefydlog **11**.*

a Gall y Cyngor benodi Swyddog Diogelu Data.

b **Bydd gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i unigolyn yn ymarfer hawliau statudol ynghylch eu data personol.**

c **Bydd gan y Cyngor bolisi ysgrifenedig ar gyfer ymateb i a rheoli achos o dorri amodau data personol.**

d **Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o bob achos o dorri amodau data personol fydd yn cynnwys y ffeithiau ynghylch yr achos o dorri amodau data personol, ei effeithiau a'r camau a gymerwyd i unioni'r sefyllfa.**

e **Bydd y Cyngor yn gofalu fod gwybodaeth a gyflwynir yn ei hysbysiad(au) preifatrwydd ar ffurf sy'n hwylus hygyrch ac ar gael a'i bod yn cael ei chadw'n gyfredol.**

f **Bydd y Cyngor yn cadw cofnod ysgrifenedig o'i weithgareddau prosesu.**

## 22. CYSYLLTIADAU Â'R WASG/CYFRYNGAU

a Bydd ceisiadau oddi wrth y wasg neu gyfryngau eraill am sylw neu ddatganiad llafar neu ysgrifenedig gan y Cyngor, ei gynghorwyr neu staff yn cael eu trin yn unol â pholisi'r Cyngor ar ddelio â'r wasg a/neu gyfryngau eraill.

b Yn unol â pholisi'r Cyngor ar gyfer ymdrin â'r wasg a/neu gyfryngau eraill, ni fydd cynghorwyr, yn rhinwedd y ffaith eu bod yn gynghorwyr, yn rhoi datganiadau llafar neu ysgrifenedig nac erthyglau ysgrifenedig i'r wasg neu gyfryngau eraill.

## 23. CYFLAWNI A SELIO GWEITHREDOEDD CYFREITHIOL

*Trowch hefyd at reolau sefydlog* ***15(a)(xii) a 15 (a)(xvii).***

a Ni fydd gweithred gyfreithiol yn cael ei chyflawni ar ran y Cyngor onid awdurdodwyd hynny trwy benderfyniad.

b **Yn amodol ar reol sefydlog** 23(**a), sêl gyffredin y Cyngor yn unig a ddefnyddir ar gyfer selio gweithred sy'n gyfreithiol ofynnol. Fe'i defnyddir gan y Clerc ym mhresenoldeb dau gynghorydd a fydd yn llofnodi'r weithred yn dystion.**

*Mae'r uchod yn berthnasol i Gyngor a chanddo sêl gyffredin*

NEU
**Yn amodol ar reol sefydlog 22(a), gall unrhyw ddau gynghorydd lofnodi, ar ran y Cyngor, unrhyw weithred sy'n gyfreithiol ofynnol a bydd y Clerc yn dyst i'w llofnodion.**

*Mae'r uchod yn berthnasol i Gyngor heb sêl gyffredin.*

## 24. CYFATHREBU GYDA CHYNGHORWYR BWRDEISTREFI SIROL NEU GYNGHORWYR SIR

a Danfonir gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor, ynghyd â'r agenda, at gynghorydd/wyr ward y Cyngor Sir sy'n cynrychioli ardal y Cyngor.

b Onid yw’r Cyngor yn penderfynu fel arall, danfonir copi o bob llythyr a ddanfonir at y Cyngor Sir at y cynghorydd/wyr ward sy’n cynrychioli ardal y Cyngor.

## 25. CYFYNGIADAU AR WEITHGARWCH CYNGHORWYR

a. Onid awdurdodir hynny’n briodol, ni fydd unrhyw gynghorydd:
   i. yn archwilio unrhyw dir a/neu adeiladau y mae gan y Cyngor hawl neu ddyletswydd i’w archwilio; nac
   ii. yn rhoi gorchmynion na chyfarwyddiadau

## 26. RHEOLAU SEFYDLOG YN GYFFREDINOL

a Gellir atal rheol sefydlog neu ran o reol sefydlog, ac eithrio un sy’n cynnwys gofynion statudol gorfodol, trwy benderfyniad o ran ystyried eitem ar agenda ar gyfer cyfarfod.

b Rhaid cyflwyno cynnig i ychwanegu at neu amrywio neu ddirymu un neu ragor o reolau sefydlog y Cyngor, ac eithrio un sy’n cynnwys gofynion statudol neu gyfreithiol gorfodol, trwy gyfrwng cynnig arbennig, a rhaid rhoi’r hysbysiad ysgrifenedig amdano gan o leiaf 6 cynghorydd i’r Clerc yn unol â rheol sefydlog **9**.

c Bydd y Swyddog Priodol yn rhoi copi o reolau sefydlog y Cyngor i gynghorydd cyn gynted ag y bo modd.

d Bydd penderfyniad cadeirydd cyfarfod ynghylch defnyddio rheolau sefydlog yn y cyfarfod yn derfynol.

# 27. Defnydd o’r Iaith Gymraeg

Bydd y Cyngor yn trafod y materion yn ei gyfarfodydd yn yr iaith Gymraeg.

*The Council conducts its business in Welsh. Minutes can be made available in English within a reasonable period and on payment of reasonable translation costs on application to the Clerk.*

Os dymuna person sydd ddim yn siarad Cymraeg roi cyflwyniad ar fater ar yr Agenda, mae croeso iddo/iddi wneud hynny yn Saesneg. Os bydd yn dymuno parhau i wrando ar weddill y cyfarfod, disgwylir iddo/iddi ddarparu gwasanaeth Cyfieithydd (ar ei gost ei hun).

*If a person who does not speak Welsh wishes to make a presentation on a matter on the Agenda, he/she is welcome to do so in English. If he/she wishes to listen to the rest of the meeting, he/she is expected to provide his/her own interpreter (at his/her own cost).*

Os bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfod ar gyfer y cyhoedd, y Cyngor fydd yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth cyfieithu.

*If the Council holds a public meeting, the Council will be responsible for providing a translation service.*

Bydd gohebiaeth yn Saesneg yn cael ei ateb yn Saesneg.

………………………………………………………………………………………………………